ColegauCymru
CollegesWales

# Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Rhagair



**Judith Evans**
Cadeirydd ColegauCymru

Y mae llywodraethwyr yn asgwrn cefn i atebolrwydd colegau, ac maent yn geidwaid ffyddlon arian cyhoeddus. Gweithiant yn galed i sicrhau'r budd gorau i'n myfyrwyr, a thrwy'r Cod hwn, dymunant ddangos ymhellach bod yr ymddiriedaeth honno yn deg.

Caiff colegau addysg bellach Cymru eu hystyried yn bartneriaid strategol gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys ysgolion a busnesau. Mae gan golegau rôl ganolog wrth gynorthwyo cyrhaeddiad pobl ifanc ac oedolion, eu paratoi at fyd gwaith ac astudiaethau pellach, parhau i ddatblygu sgiliau, a thwf economaidd. Mae rhan flaenllaw gan golegau i'w chwarae wrth ffurfio cymunedau democrataidd, cynaliadwy a chynhwysol, a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r dibenion hyn sydd wedi'u diffinio'n dda yn caniatáu i lywodraethwyr ac ymddiriedolwyr, drwy herio'n adeiladol a chynorthwyo'n effeithiol, ddangos y budd cyhoeddus sydd i'n gwaith. O gymharu â llawer o wledydd y byd, mae gan golegau yng Nghymru lefel uwch o hunanreolaeth. Y mae'r annibyniaeth hon o ran llywodraethu yn gonglfaen yn ein system, ac mae'n rhan greiddiol o lwyddiant y sector. Bydd yn parhau i fod o'r pwys mwyaf wrth i golegau ddatblygu i fod yn fwyfwy arloesol ac entrepreneuraidd er mwyn diwallu anghenion addysg a sgiliau Cymru ac ymateb i agendâu economaidd a chymdeithasol allweddol.

Y mae rhagoriaeth ym maes llywodraethu yn awr yn ganolog i sector y colegau addysg bellach yng Nghymru. Bydd hyd yn oed yn bwysicach bod a llywodraethwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac a all ddangos ymarfer o'r radd uchaf wrth i'r sector barhau i fasnacheiddio ac arallgyfeirio.

Drwy fabwysiadu a gweithredu'r Cod hwn, bydd cyrff llywodraethu yn dangos yn gyhoeddus eu harweinyddiaeth a'u stiwardiaeth mewn perthynas â'u coleg eu hunain, yn ateb unrhyw feirniadaeth yn agored ac, wrth wneud hynny, yn diogelu enw da eu coleg a'r sector yn ehangach ac yn darparu sicrwydd priodol i randdeiliaid allweddol.

Yn bwysicach, mae mabwysiadu'r Cod newydd yn gyfle i feddwl o'r newydd am ddulliau gweithredu wrth i'r sector ymdrechu i fod ar flaen y gad o ran ymarfer gorau ym maes llywodraethu. Y mae'n arwydd o barodrwydd i gychwyn ar gyfnod newydd o lywodraethu gyda'r egni a'r ymrwymiad i sicrhau'r safonau uchaf posibl i'n rhanddeiliaid.

Mae'r Cod yn cynnwys:

- Datganiad cychwynnol o'r gwerthoedd a'r disgwyliadau craidd sy'n rhoi'r cyd-destun i'r ffordd y caiff camau llywodraethu coleg eu gweithredu
- Y saith elfen o lywodraethu sy'n ategu'r gwerthoedd hyn ac sy'n hanfodol i'w gweithredu'n llwyddiannus
- Ystyriaeth fanylach o bob elfen
- Rhestr o gyfeiriadau a dolenni i ddogfennau ac enghreifftiau o arferion da.

# Y Cod

Ysgrifennwyd y Cod i gynorthwyo arferion llywodraethu, a fydd yn y tymor hir yn helpu colegau i weithio'n llwyddiannus tuag at gyflawni eu cenhadaeth a'u strategaeth. Mae gofyn darllen y Cod ochr yn ochr ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu pob coleg unigol a'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol. Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o werthoedd a disgwyliadau cyffredin. Bydd cyrff llywodraethu yn gweithio yn 'ysbryd' y Cod yn ogystal â'i 'lythyren'. Fel sector, bod yn ymrwymedig a rhagweithiol fydd ein dull o lywodraethu.

Mae'r Cod hwn yn berthnasol i Golegau Addysg Bellach Cyffredinol, Colegau Chweched Dosbarth a Sefydliadau Addysg Bellach, er y bydd amrywiadau yn y modd y bydd yr endidau hyn yn gweithredu'r Cod yn sgil gwahaniaethau yn eu ffurf gorfforaethol.

Caiff yr ymadrodd *'corff llywodraethu'* ei ddefnyddio drwy'r ddogfen i gwmpasu bwrdd y gorfforaeth neu fwrdd y cyfarwyddwyr.

Mae'r ymadrodd *'pennaeth'* yn cynnwys rôl y 'swyddog cyfrifyddu' o dan femoranda ariannol Llywodraeth Cymru. Gallai'r swydd hefyd gael ei galw'n brif weithredwr.

Defnyddir yr ymadrodd *'clerc'* drwy gydol y ddogfen i gwmpasu rôl swyddog llywodraethu.

Y prif reoleiddiwr yw *'Gweinidogion Cymru'*, drwy adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi.

Mae'r Cod yn nodi'r elfennau a'r arferion y bydd angen i unrhyw goleg yn y sector eu mabwysiadu er mwyn dangos ei fod yn cynnal ei fusnes er budd pennaf ei fyfyrwyr, rhanddeiliaid allweddol a chyllidwyr. Ni ddylai mabwysiadu'r Cod gyfyngu ar arloesedd o ran llywodraethu na thagu natur ddeinamig colegau.

Defnyddia'r cod gonfensiwn arferol 'rhaid a dylai' ar gyfer codau llywodraethu. Mae 'rhaid' yn faes gweithgarwch sy'n cael ei gwmpasu gan statud a/neu'r lefel sylfaenol a ddisgwylir gan y prif reoleiddiwr a'r noddwr. Caiff gweithgareddau sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol hyn ac sy'n cynrychioli arferion llywodraethu da neu well eu nodi fel 'dylai'.

Gan gydnabod lluosogrwydd ac ymreolaeth y sector o ran cyfrifoldeb, mae cyrff llywodraethu yn rhydd i gyflawni disgwyliadau'r gosodiadau 'rhaid' a 'dylai' ym mha bynnag fodd sydd orau yn eu tyb hwy. Os yw corff llywodraethu wedi mabwysiadu'r Cod, ond am reswm da heb gydymffurfio â darpariaethau penodol ynddo, dylai'r corff llywodraethu esbonio ei sail resymegol a sut mae ei ddull gweithredu yn cyd-fynd ag ysbryd y Cod.

Dylai pob coleg nodi ei fod yn mabwysiadu'r Cod yn y datganiad llywodraethu corfforaethol sydd wedi'i gynnwys yn ei ddatganiadau archwiliedig blynyddol.

Caiff y Cod hwn ei hun ei adolygu'n rheolaidd gan GolegauCymru a'i bartneriaid i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben. Fel arfer caiff hyn ei wneud bob tair blynedd, neu yn gynharach os bydd newid sylweddol yn yr amgylchiadau.

## Gwerthoedd Craidd Llywodraethu Coleg

Rhaid i addysg bellach o ansawdd uchel, sy'n ennyn hyder y cyhoedd ac yn hyrwyddo enw da colegau unigol a'r sector, fod yn seiliedig ar nifer o werthoedd cyffredin. Drwy weithredu gwerthoedd o'r fath, gall y corff llywodraethu: sicrhau addysg a hyfforddiant o ansawdd i'w fyfyrwyr; dangos y budd cyhoeddus; darparu'r sylfaen i'r effeithiolrwydd ei hun; hybu ymreolaeth y coleg; cynorthwyo cynaliadwyedd y gwasanaeth a gwella enw da'r sector; a, thrwy esiampl, dangos arweinyddiaeth ddeinamig.

Byddai methu â mabwysiadu a gweithredu cyfres o werthoedd y cytunwyd arnynt yn golygu goblygiadau y tu hwnt i'r coleg dan sylw drwy'r posibilrwydd o danseilio enw da cyfunol yr holl golegau a'r sector yn ehangach.

Wrth osod gwerthoedd craidd, mae'r Cod yn mabwysiadu ac yn adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan) sy'n darparu fframwaith moesegol i ymddygiad personol y llywodraethwyr. Hefyd, o ystyried natur benodol addysg bellach, mae'r Cod hefyd yn mabwysiadu'r gwerthoedd a'r ymddygiad o fod yn:

- Barchus
- Proffesiynol
- Pwyllog
- Ymrwymedig a brwdfrydig ynghylch llywodraethu da.

Mae'r Cod yn seiliedig ar y disgwyliadau canlynol o lywodraethu da, sy'n dangos gwerthoedd a chredoau llywodraethwyr ac ymddiriedolwyr colegau:

- Rhoi'r dysgwr yn gyntaf, gan hybu disgwyliadau ac uchelgeisiau uchel ymysg dysgwyr a staff
- Gwrando ar ddysgwyr, rhieni, cyflogwyr a staff
- Hybu arferion dysgu ac addysgu sy'n ysbrydoli
- Creu amgylchedd diogel i ddysgwyr ddysgu a datblygu ynddo
- Darparu arweinyddiaeth a her strategol cryf i'r uwch dîm
- Gosod y strategaeth a gweithredu yn warcheidwaid i genhadaeth y coleg
- Hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Darparu arweinyddiaeth ym maes addysg a sgiliau ôl-16 i'r gymuned y mae'r coleg yn ei gwasanaethu
- Dangos atebolrwydd i bob rhanddeiliaid, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth gywir ac phrydlon am berfformiad
- Defnyddio adnoddau refeniw, cyfalaf a dynol mewn ffordd bwyllog a chosteffeithiol er budd dysgwyr
- Sicrhau cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r coleg
- Defnyddio ymreolaeth ac annibyniaeth y coleg yn gyfrifol i ddiwallu anghenion addysg a sgiliau lleol.

## Saith Elfen Llywodraethu Da

Er mwyn gweithredu ac ymwreiddio'r gwerthoedd a'r disgwyliadau yn y coleg, bydd y llywodraethwyr, yr ymddiriedolwyr, a'r uwch arweinwyr yn ymgymryd i weithredu'r saith elfen ganlynol o lywodraethu da:

| | |
|---|---|
| **Elfen 1:**<br>**Strategaeth ac Arweinyddiaeth** | Ffurfio a chytuno ar y **genhadaeth, y weledigaeth a'r strategaeth** gan gynnwys diffinio ethos y coleg. |
| **Elfen 2:**<br>**Cyd-atebolrwydd** | Bod yn **gyd-atebol** am weithrediad y coleg, gan wneud pob penderfyniad ar bob mater yn unol â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. |
| **Elfen 3:**<br>**Strategaeth Ariannol ac Archwilio** | Mabwysiadu **strategaeth ariannol a chynlluniau** cyllido sy'n gydnaws â'r ddyletswydd i sicrhau cynaliadwyedd y coleg a'i allu i dalu ac, wrth wneud hynny, sicrhau y caiff **rheolaeth effeithiol a diwydrwydd dyladwy** eu cynnal mewn perthynas â phob mater gan gynnwys caffael, is-gontractio a gweithgarwch partneriaeth. |
| **Elfen 4:**<br>**Dysgu ac Addysgu** | Meithrin **arferion dysgu ac addysgu eithriadol drwy sicrhau** bod polisïau a systemau sylfaenol effeithiol sy'n meithrin a hwyluso **llais y myfyrwyr.** |
| **Elfen 5:**<br>**Ymatebolrwydd** | Sicrhau bod y coleg yn **ymatebol i dueddiadau'r gweithlu** drwy fabwysiadu amrywiaeth o strategaethau i ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. |
| **Elfen 6:**<br>**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | Cyflawni ac anelu i fynd y tu hwnt i'w gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| **Elfen 7:**<br>**Llywodraethu Effeithiol** | Sicrhau bod yno **strwythurau llywodraethu a rheoli clir** a threfnus, a bod dirprwyaethau wedi'u deall yn dda, gan gynnwys **adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd llywodraethu** yn rheolaidd. |

# Elfen 1: Strategaeth ac Arweinyddiaeth

1.1 Y corff llywodraethu sy'n darparu'r arweinyddiaeth strategol gyffredinol i'r coleg. Rhaid i'r corff llywodraethu ffurfio a chytuno ar y genhadaeth, y weledigaeth a'r strategaeth gan gynnwys diffinio ethos y coleg. Dylai'r corff llywodraethu ystyried gosod ei ddyheadau i'r coleg mewn datganiad o weledigaeth.

1.2 Rhaid i'r corff llywodraethu gymeradwy'r cynllun strategol yn ffurfiol. Dylai'r cynllun hwn gwmpasu pob agwedd ar waith y coleg, gan gynnwys partneriaethau ac is-gwmnïau. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod y cynllun strategol yn realistig a bod strategaeth ariannol yn sylfaen iddo.

1.3 Dylai'r cynllun strategol fod yn seiliedig gar asesiad o anghenion. Dylai'r cynllun adlewyrchu budd a barn myfyrwyr, rhieni, cyflogwyr a'r gymuned yn ddigonol.

1.4 Dylai aelodau'r corff llywodraethu allu esbonio'r sail resymegol sylfaenol a bod yn gyfarwydd â'r sylfaen dystiolaeth gefnogol a chanlyniadau unrhyw ymarferiadau sganio'r gorwel.

1.5 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod y rheolwyr wedi sefydlu cynllun gweithredu sy'n nodi'r agweddau hynny ar y cynllun strategol a weithredir mewn unrhyw flwyddyn benodol.

1.6 Er mwyn sicrhau y caiff ei weithredu'n llwyddiannus, rhaid i'r corff llywodraethu fod yn glir sut ynghylch caiff perfformiad y strategaeth ei fesur. Dylai nodi a mabwysiadu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cwmpasu iechyd ariannol, dysgu ac addysgu, profiad a deilliannau'r myfyrwyr, perfformiad staff a barn rhanddeiliaid. Wrth wneud hynny, dylai'r corff llywodraethu ddangos yn glir sut mae'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol gan y corff llywodraethu a rheolaeth ac arweinyddiaeth weithredol gan uwch dîm rheoli'r coleg dan arweiniad y pennaeth.

1.7 Dylai aelodau'r corff llywodraethu fonitro a chraffu ar weithgarwch y coleg yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio meincnodau allanol, herio diffygion mewn perfformiad, a sicrhau yr eir i'r afael â gwendidau.

1.8 Dylai'r genhadaeth a'r strategaeth gael eu cyhoeddi, a'u hadnewyddu'n flynyddol os bydd angen, a'u hadolygu o leiaf bob tair blynedd drwy broses sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol.

1.9 Efallai y dymuna'r corff llywodraethu fynd yn bellach a chwyddo'r genhadaeth drwy gyfrwng 'datganiad o fudd cyhoeddus', gan ddisgrifio sut mae'r coleg yn anelu i ychwanegu gwerth at les cymdeithasol, economaidd a ffisegol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## Polisïau

1.10 I sicrhau y caiff y strategaeth y cytunwyd arni ei gweithredu, rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod polisïau a systemau sylfaenol effeithiol yn eu lle.

1.11 Rhaid i'r corff llywodraethu gefnogi cyfres o bolisïau priodol sy'n disgrifio sut caiff y strategaeth ei gweithredu. Mae enghreifftiau o'r hyn allai gael ei gwmpasu yn cynnwys: mynediad, recriwtio, dysgu ac addysgu, asesu a dilysu, defnyddio technoleg, llais y myfyrwyr, ymwneud ac ymgysylltu, gwobrwyo a chydnabod myfyrwyr, cyngor gyrfaoedd a dilyniant, ansawdd a safonau, a chyfoethogi a dinasyddiaeth.

1.12 Dylai'r corff llywodraethu fonitro gweithrediad polisïau drwy herio'n adeiladol a chynorthwyo'n effeithiol.

1.13 Rhaid i'r corff llywodraeth fod yn sicr bod polisïau a systemau yn eu lle wedi'u harwain gan y tîm rheoli i ddarparu'r profiad dysgu gorau i bob myfyriwr, gan gynnwys y rhai sy'n ymgymryd â gweithgarwch dysgu oddi ar y safle neu sy'n derbyn darpariaeth o dan drefniant is-gwmni neu bartneriaeth.

1.14 Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod ganddo gynllun yn ei le i hyrwyddo'n weithredol yr egwyddor na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r cyhoedd yn cynnwys holl staff y coleg a'r myfyrwyr presennol ynghyd â myfyrwyr arfaethedig a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru.

## Llais y Myfyrwyr

1.15 Rhaid i'r corff llywodraethu dalu sylw penodol i lais y myfyrwyr ac ansawdd profiad y myfyrwyr, a dylai hyn fod yn ganolog i holl benderfyniadau'r corff llywodraethu.

1.16 Dylai'r myfyrwyr fod yn chwarae rhan weithredol yn y coleg a dylid canfod ffyrdd effeithiol i sicrhau y caiff llais y myfyrwyr ei glywed drwy brosesau a arweinir gan y coleg a chan y myfyrwyr. Dylai'r corff llywodraethu dderbyn adroddiadau rheolaidd ar sut yr ymgysylltir â'r myfyrwyr a pha effaith gaiff eu llais ar fywyd y coleg.

1.17 Rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu amgylchedd diogel a rhaid bod ganddo bolisi diogelu cadarn sy'n cael ei asesu a'i fonitro yn rheolaidd. Gallai'r polisi hwn, er enghraifft, hefyd gynnwys y dyletswyddau sy'n codi o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (neu gallai hyn gael ei gwmpasu gan bolisi ar wahân).

1.18 Rhaid bod gweithdrefnau cwyno a chwythu'r chwiban clir yn eu lle ac wedi'u cyhoeddi. Dylai'r corff llywodraethu dderbyn adroddiadau rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) ar nifer a math y cwynion a sut y caiff cwynion eu datrys.

# Elfen 2: Cyd-atebolrwydd

2.1 Rhaid i'r corff llywodraethu fod yn gyd-atebol am weithrediad y coleg, gan wneud pob penderfyniad am bob mater sy'n unol â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

2.2 Rhaid i aelodau'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'w ffurf gyfreithiol o gorfforiad. Mae aelodau corff llywodraethu yn ymddiriedolwyr elusen a rhaid iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth elusen a chyfraith achosion.

2.3 Rhaid i'r corff llywodraethu osod ei brif gyfrifoldebau yn yr Erthyglau Llywodraethu (neu ddogfen gyfreithiol debyg) a'i reolau llywodraethu yn yr Offeryn. Dylai'r rhain gael eu cyhoeddi a bod yn wybyddus i bob llywodraethwr. Dylai'r cyfrifoldebau hyn gael eu hategu gan atodlen ddirprwyo sy'n nodi sut caiff pob cyfrifoldeb ei gyflawni a chan bwy, gan gynnwys yr eitemau hynny y mae'r corff llywodraethu yn eu dirprwyo i'r pennaeth.

2.4 Rhaid i'r corff llywodraethu geisio sicrwydd ei fod yn ateb yr holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a osodir arno fel corff corfforaethol, a dylid adolygu cydymffurfiad y coleg yn rheolaidd.

2.5 Dylai'r corff llywodraethu gynnal ei faterion mor agored a thryloyw â phosibl, gan ymgynghori'n llawn ar ei gynlluniau a'r modd y mae'n cyflawni. Rhaid i egwyddorion cyffredinol a gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fod yn gymwys, fel bod gan staff a dysgwyr fynediad at wybodaeth ynglŷn â gweithrediadau'r corff llywodraethu.

2.6 Mae adrodd cyhoeddus yn bwysig ac yn cyfrannu at hyder yn y sector. Dylai adroddiad blynyddol yr aelodau a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio fod ar gael yn eang yn fewnol ac allanol.

2.7 Dylai adroddiad blynyddol y llywodraethwyr gael ei gyhoeddi a dylai gynnwys adran sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu – gan gynnwys i ba raddau y mabwysiadwyd y Cod hwn – a'r polisïau ar ddatgelu cyhoeddus.

2.8 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y rhoddir gwybodaeth ddidwyll, gywir a phrydlon i'r dysgwyr a'r cyhoedd am bob agwedd ar ddarpariaeth a bod gan y corff llywodraethu y wybodaeth angenrheidiol i allu herio.

2.9 Mae gofyn i aelodau'r corff llywodraethu allu cyflawni eu dyletswyddau yn unol â safonau derbyniol mewn bywyd cyhoeddus. Rhaid i aelodau'r corff llywodraethu osgoi achosion o wrthdaro buddiannau'r coleg bob amser. Rhaid i lywodraethwyr nad yw eu barn yn gyson â phenderfyniadau'r corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd lynu wrth egwyddor gwneud penderfyniadau ar y cyd a sefyll wrth benderfyniadau'r corff llywodraethu.

# Elfen 3: Strategaeth Ariannol ac Archwilio

## Strategaeth Ariannol

3.1 Rhaid i'r corff llywodraethu fabwysiadu strategaeth a chynllun ariannol sy'n gydnaws â'r ddyletswydd i sicrhau cynaliadwyedd y coleg a'i allu i dalu ac, wrth wneud hynny, sicrhau y caiff rheolaeth effeithiol a diwydrwydd dyladwy eu cynnal mewn perthynas â phob mater gan gynnwys caffael, is-gontractio a gweithgarwch masnachol. Rhaid i'r corff llywodraethu osod a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol. Rhaid i'r cyfrifoldeb am ei chymeradwyo fod yn fater o benderfyniad i'r corff llywodraethu ar y cyd, heb ddirprwyo.

3.2 Rhaid i'r corff llywodraethu fabwysiadu systemau effeithiol o reolaeth a rheoli risg sy'n hybu gwerth am arian, yn defnyddio cyfalaf, ystadau a thechnoleg yn effeithlon, yn ateb gofynion archwilio gorfodol, ac yn cynhyrchu data'r coleg yn gywir a chyda sicrwydd ansawdd.

3.3 Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau cydymffurfiaeth â'r memoranda ariannol a rhaid iddo ddeall a chyflawni'r amodau cyllido, fel a osodir gan y cyllidwyr.

3.4 Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu adran Llywodraeth Cymru sy'n eu noddi o unrhyw newid "materol andwyol" yn amgylchiadau'r coleg.

3.5 Rhaid i golegau fod â rheoliadau ariannol a dirprwyaethau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n briodol, wedi'u cymeradwyo gan y corff llywodraethu, sy'n nodi ei gyfrifoldebau ariannol a'i awdurdod a rhai ei bwyllgorau a'i staff.

3.6 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod ganddo hyder yn y trefniadau i ddarparu gwybodaeth ariannol gywir a phrydlon ac, felly, hyder hefyd yn y systemau ariannol a ddefnyddir i gynhyrchu gwybodaeth o'r fath.

3.7 Dylai staff y coleg ymgymryd â rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd o dan ddirprwyaeth gan y corff llywodraethu a'r pennaeth. Caiff cyfrifoldeb am reolaeth ariannol a chynghori ar faterion ariannol fel arfer ei ddirprwyo drwy'r pennaeth i uwch aelod o staff megis cyfarwyddwr cyllid (neu debyg).

## Archwilio

3.8 Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod datganiad ar reolaethau mewnol, sy'n esbonio'r trefniadau rheoli risg sy'n weithredol, wedi'i gynnwys yn adran llywodraethu corfforaethol y datganiadau ariannol archwiliedig.

3.9 Rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â gofynion gorfodol y cyllidwr mewn perthynas ag archwilio, gan gynnwys glynu wrth y canllaw archwilio perthnasol sy'n nodi'r gofynion sylfaenol. Gallai hyn fod yn wahanol i sefydliadau addysg bellach, ac mae'n bwysig bod bwrdd sefydliad addysg bellach yn deall yn glir beth yw ei gyfrifoldebau a'r swyddogaethau a ddirprwywyd. Dylai'r corff llywodraethu gymeradwyo cynllun archwilio blynyddol yn gysylltiedig a chofrestr risg y coleg, a dylai fod yn hyderus yn arbenigedd ac ansawdd unrhyw archwilwyr mewnol a ddefnyddir gan y coleg. Dylai'r corff llywodraethu ystyried defnyddio elfennau gwahanol o arbenigedd at wahanol ofynion archwilio.

3.10 Rhaid i'r pwyllgor archwilio gynorthwyo'r corff llywodraethu a'r pennaeth drwy adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd, gan gynnwys dulliau llywodraethu a rheoli risg y coleg a'i fframwaith rheoli mewnol, a llunio adroddiad archwilio blynyddol i'r corff llywodraethu.

3.11 Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i reoli a sicrhau ansawdd data. Dylai'r sicrwydd hwn gynnwys datganiad ar ansawdd y data gan y pwyllgor archwilio. Dylai'r corff llywodraethu ddefnyddio adroddiad blynyddol y coleg i roi cyfrif i bob rhanddeiliad o berfformiad a rhagolygon y coleg yn ogystal â dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol.

## Mentrau Newydd

3.12 Mae colegau yn ddeinamig a blaengar. Maent yn tyfu, yn arloesi ac yn addasu i amgylchiadau wrth iddynt newid. Dylid annog yr agwedd ymatebol hon gan y bydd perthynas gydweithiol a masnachol yn ganolog i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y coleg. Dylai'r corff llywodraethu hwyluso a galluogi'r gweithgarwch hwn.

3.13 Wrth sefydlu busnes newydd, rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau y caiff trefniadau llywodraethu effeithiol eu rhoi yn eu lle ynghyd â systemau rheoli, adrodd a dirprwyo priodol. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y creffir yn benodol ar weithgarwch newydd ac allanol sydd â risg ariannol neu risg i enw da a allai fod yn sylweddol. Pan fo gweithgarwch o'r fath yn cynnwys trafodion masnachol, rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â gofynion rheolaeth a cyfraith elusen.

3.14 Mae mentrau newydd (megis prynu cwmnïau newydd neu greu colegau mewn siroedd eraill) yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau a risgiau sylweddol. Rhaid i'r corf llywodraethu sicrhau nid yn unig ei fod yn cymeradwy'r fath ddatblygiadau strategol, ond bod y tîm gweithredol hefyd yn llunio adroddiadau rheolaidd ar berfformiad pob partneriaeth strategol a busnes allanol.

3.15 Yn achos pob is-endid (er enghraifft, cwmnïau neu ymddiriedolaethau elusennol sy'n gweithredu ar wahân), dylai'r corff llywodraethu:

- Sicrhau bod corff llywodraethu'r endid yn meddu ar y priodoleddau sydd eu hangen i ddarparu stiwardiaeth a rheolaeth briodol
- Penodi cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr i'r endid sy'n addas o gymwys a heb fod yn aelodau o gorff llywodraethu na staff/dysgwyr y coleg
- Sicrhau bod corff llywodraethu'r endid yn cynnal busnes yn unol â chod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol.

## Strwythurau'r Grŵp

3.16 Os yw'r corff llywodraethu yn llywodraethu drwy strwythur grŵp, dylai'r corff llywodraethu fod yn glir ynglŷn â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag unrhyw drefniadau llywodraethu corfforaethol eraill a gofynion adrodd cysylltiedig, a dylai ddogfennu a chyhoeddi'r rhyngberthnasau hyn.

# Elfen 4: Dysgu ac Addysgu

4.1 Rhaid i'r corff llywodraethu feithrin arferion dysgu ac addysgu eithriadol. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r corff llywodraethu geisio sicrhau darpariaeth gydlynol i'r dysgwyr sy'n arwain at ddysgu pellach neu brentisiaethau a/neu gyflogaeth. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod mecanweithiau priodol yn eu lle i oruchwylio ansawdd a chynhwysiant y profiad dysgu yn effeithiol.

4.2 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y caiff adroddiad hunanasesu'r coleg ei feincnodi yn erbyn normau ac arferion gorau y Deyrnas Unedig. Dylai'r adroddiad fod yn ddigon manwl i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r llywodraethwyr bod y profiad dysgu yn cael ei fonitro ac y sicrhawyd bod yr adnoddau dysgu priodol ar gael.

4.3 Dylai'r corff llywodraethu droi at yr uwch dîm arwain i ddilysu'n allanol unrhyw adroddiadau arsylwi addysgu ac asesu mewnol a, lle y caiff gwendidau eu canfod, dylai sicrhau bod y tîm gweithredol yn gweithredu ar unwaith.

4.4 Dylai'r corff llywodraethu fod yn effro i faterion y coleg a defnyddio amryw ddulliau i gwrdd a'r dysgwyr, er enghraifft drwy undeb y myfyrwyr. Dylai hefyd fod gan y corff llywodraethu ffyrdd yn eu lle i gwrdd â staff, rhieni a chyflogwyr, megis teithiau cerdded i ddysgu a bod â llywodraethwyr cyswllt.

4.5 Wrth gytuno ar strategaeth adnoddau dynol / gweithlu, dylai'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn adlewyrchu ethos y coleg ac o gymorth i ragoriaeth mewn ansawdd, addysgu, dysgu ac asesu.

4.6 Dylai'r corff llywodraethu fod yn ymwybodol o fentrau newydd ym maes dysgu ac addysgu, er enghraifft dysgu cyfunol a/neu rith-ddysgu a, thrwy werthuso gofalus, ystyried eu mabwysiadu. Rhaid i'r corff llywodraethu fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau cyrff allanol, yn benodol eu disgwyliadau o ansawdd da. Dylai aelodau cyrff llywodraethu fod yn gallu esbonio sut maent yn meincnodi ansawdd a chyflawniad y dysgwyr.

4.7 Dylai'r corff llywodraethu weld canlyniadau arolygon y dysgwyr gan gynnwys data cyrchfannau, a gallu monitro cynlluniau gwella.

4.8 I sicrhau profiad dysgu o ansawdd, dylai'r corff llywodraethu ddefnyddio arferion gorau wrth oruchwylio arferion recriwtio, datblygiad a pherfformiad y staff addysgu a'r staff cynorthwyol. Dylid datblygu dangosyddion perfformiad addysgu, dysgu a llwyddiant sy'n unol â dangosyddion perfformiad allweddol cyffredinol y coleg er mwyn monitro ansawdd a dilyniant.

## Elfen 5: Ymatebolrwydd

5.1 Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y coleg yn ymatebol i'r gymuned a thueddiadau cyflogaeth perthnasol, gan gynnwys adeiladu perthynas ddwy-ffordd â grwpiau lleol sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr. Er mwyn hwyluso dilyniant dysgwyr at astudio pellach neu gyflogaeth, dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod gan y coleg amrywiaeth o strategaethau yn eu lle i ymgysylltu â chyflogwyr, prifysgolion a rhanddeiliaid eraill.

5.2 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod gan y coleg wybodaeth dda am yr amryw randdeiliaid lleol, cenedlaethol a busnes y mae'n eu gwasanaethu, gan gynnwys cynnal deialog gyda'r colegau a'r prifysgolion sy'n ymwneud mewn gwaith partneriaeth a dilyniant.

5.3 Dylai fod gan y coleg systemau yn eu lle sy'n hwyluso'r arfer o ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd, yn rhagweithiol ac yn effeithiol er mwyn iddo allu nodi a blaenoriaethu eu hanghenion presennol ac i'r dyfodol o ran addysg a hyfforddiant a thrafod sut orau i'w diwallu. Mae angen i'r rhyngberthnasau hyn fod yn rhai dwy-ffordd.

5.4 Mae rhanddeiliaid yn cynnwys yr holl sefydliadau, unigolion a grwpiau o unigolion y mae'n fwriad gan y corff llywodraethu y byddant yn elwa o wasanaethau'r coleg. Gallai'r rhanddeiliaid hyn gynnwys: dysgwyr arfaethedig, ysgolion, colegau a phrifysgolion, rhieni, awdurdodau lleol a rhanbarthol, cyflogwyr o bob maint a'u cyrff cynrychioliadol, ac asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus eraill megis y Ganolfan Byd Gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, yr heddlu a charchardai.

5.5 Prif ddibenion y trafodaethau hyn ddylai fod sicrhau bod rhaglen y coleg yn berthnasol ac y caiff ei hystyried yn ymatebol i anghenion lleol ac anghenion y dysgwyr hynny yr ystyrir mai eu cam nesaf fydd symud ymlaen yn bellach yn y coleg, neu i brifysgol, prentisiaeth seiliedig ar waith a/neu swydd. Dylai'r Dylai'r corff llywodraethu hefyd ystyried defnydd cymunedol a masnachol o asedau a chyfleusterau'r coleg.

5.6 Dylai'r corff llywodraethu gyhoeddi ar wefan y coleg (o leiaf yn flynyddol) gyfrif o sut mae'r coleg yn ymwneud â'r prif gymunedau a wasanaethir ganddo, y cynnydd a wnaed tuag at ddiwallu eu hanghenion am addysg a hyfforddiant, a sut mae'n bwriadu diwallu anghenion i'r dyfodol.

5.7 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod trefniadau yn eu lle i asesu i ba raddau y mae'r rhanddeiliaid a wasanaethir gan y coleg yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir. Dylai pob coleg drafod gyda chynrychiolwyr y rhanddeiliaid a'r gymuned y sylw a roddir i unrhyw adroddiadau a'u hamseriad, a dylid cynnig cyfleoedd iddynt drafod ei adroddiadau yn fwy cyflawn.

# Elfen 6: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

6.1 Rhaid i'r corff llywodraethu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth – a dylai anelu i fynd y tu hwnt i hynny – drwy ei weithredoedd a'i ymddygiad ei hun ym mhob agwedd ar ei faterion. Rhaid i'r corff llywodraethu hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob rhan o'r 6 elfen arall.

6.2 Dylai'r corff llywodraethu gymeradwyo ac adolygu strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth y coleg a mabwysiadu dangosyddion perfformiad wedi'u cytuno i'w gweithredu.

6.3 Mae gan y corff llywodraethu nifer o rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth y mae'n rhaid iddo eu deall a chydymffurfio â hwy. Y mae'r rhain yn mynd yn llawer pellach nag osgoi gwahaniaethu: maent yn galw am hybu cydraddoldeb yn weithredol mewn nifer o feysydd diffiniedig. Rhaid i'r corff llywodraethu felly sicrhau y caiff polisïau y cytunwyd arnynt eu symud ymlaen a'u gweithredu drwy'r coleg yn gyfan. Efallai y bydd y corff llywodraethu hefyd yn dymuno ystyried cyngor a gyhoeddir gan adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a diogelu.

6.4 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod y strategaeth adnoddau dynol yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gan y pwyllgor cyflogau (neu debyg) gyfrifoldebau penodol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth bennu cyflogau a dyfarniadau eraill. Dylai adroddiad y pwyllgor hwn i'r corff llywodraethu esbonio sut y rhoddwyd ystyriaeth i bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y coleg wrth wneud ei benderfyniadau.

6.5 Dylai'r corff llywodraethu, ynghyd â'r pwyllgor chwilio (neu debyg) os yw'n bodoli) gytuno ar ei ddull gweithredu ei hun o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â phenodi aelodau newydd, a dylid rhoi ystyriaeth lawn i oblygiadau polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol y coleg, gan gynnwys unrhyw amcanion mesuradwy a allai fod yn berthnasol.

6.6 Mae'n bwysig bod y corff llywodraethu yn adrodd yn llawn ar ei weithredoedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth lywodraethu. Dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys disgrifiad o'i bolisi, gan gynnwys unrhyw amcanion mesuradwy, a dylai amlinellu'r cynnydd ar ei weithredu. Yn achos y colegau hynny sy'n llunio adroddiad ar wahân ar gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n mynd i'r afael â'r fath faterion, byddai croesgyfeirio'n syml yn ddigonol.

# Elfen 7: Llywodraethu Effeithiol

7.1 Yr un yw egwyddorion llywodraethu effeithiol i bob bwrdd llywodraethu. Oherwydd y gwahanol strwythurau cyfreithiol, mae'r adran hon yn berthnasol i Golegau Addysg Bellach Cyffredinol yn benodol. Ond dylai'r cysyniad y tu ôl i bob datganiad hefyd gael ei ystyried a'i fabwysiadu gan fyrddau sefydliadau addysg bellach. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod strwythurau llywodraethu a rheoli trefnus a chlir yn eu lle a bod y dirprwyaethau i'w deall yn dda, gan gynnwys adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd llywodraethu yn rheolaidd.

7.2 Dylai'r corff llywodraethu a'i bwyllgorau fod o faint priodol a bod â'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad a gwybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol.

7.3 Yn achos Colegau Addysg Bellach Cyffredinol, dylai'r pennaeth fod yn llywodraethwr ond, yn amodol ar yr erthyglau llywodraethu, gallai ddewis peidio â gwasanaethu. Rhaid i'r corff llywodraethu gynnwys llywodraethwyr o blith y myfyrwyr a'r staff a phenodi clerc. Dylai'r clerc fod yn annibynnol, adrodd yn uniongyrchol i'r corff llywodraethu, a meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i hwyluso'r arfer o lywodraethu'n effeithiol.

7.4 Dylai'r corff llywodraethu gwrdd mor aml ag sy'n ofynnol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Dylai fod gan y corff llywodraethu reolau ynghylch sut y cynhelir ei gyfarfodydd. Dylai'r aelodau fynychu pob cyfarfod os yw'n bosibl, a rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu nifer a chategori'r aelodau sy'n creu cworwm.

7.5 Dylai fod rhagdybiaeth o ddidwylledd ac ymgysylltiad, gyda phob mater yn agored i drafodaeth gan y corff llywodraethu cyfan. O bryd i'w gilydd bydd materion lle na ddylai llywodraethwyr unigol fod yn rhan o drafodaethau; dylid ymdrin â'r rhain naill ai drwy ddatganiadau 'gwrthdaro buddiannau', neu drwy orfodi polisi y cytunwyd arno ar gyfrinachedd busnes.

7.6 Gall y corff llywodraethu ddirprwyo rhywfaint o'i weithgareddau i bwyllgorau a/neu'r cadeirydd, ond dylid cytuno ar atodlen ffurfiol o faterion a gedwir yn ôl i benderfynu yn eu cylch ar y cyd.

7.7 Fel lleiafswm, dylai hyn gynnwys penderfyniadau terfynol ar y canlynol:

- Gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth
- Adolygu a chymeradwyo cyllidebau refeniw a chyfalaf a rhagolygon arian parod blynyddol y coleg ynghyd â'i ddatganiadau ariannol archwiliedig
- Penodi ac (os bydd angen) diswyddo'r pennaeth, deiliaid swyddi uwch neu'r clerc.

7.8 Dylai'r corff llywodraethu, yn ysgrifenedig, bennu cylch gorchwyl, aelodaeth ac awdurdod dirprwyedig pob pwyllgor, wedi'i gymeradwyo yn flynyddol gyda threfniadau clir iddynt adrodd yn ôl.

## Cyflogau Deiliaid Swyddi Uwch

7.9 Rhaid i'r corff llywodraethu bennu cyflog ac amodau gwasanaeth y pennaeth, deiliaid swyddi uwch eraill a'r clerc, a gallai sefydlu pwyllgor cyflogau i gynghori'r corff llywodraethu. Dylai penderfyniadau ar gyflogau gael eu cyfarwyddo gan ddata meincnodi a chan arfarniadau perfformiad diweddar.

7.10 Os yw taliadau diswyddo o dan ystyriaeth, dylid cael cyngor gan archwilydd allanol i ganfod dilysrwydd unrhyw daliad arfaethedig. Dylai'r adroddiadau ar faterion yn ymwneud â chyflogau a thaliadau diswyddo roi manylion digonol i alluogi'r corff llywodraethu i'w fodloni ei hun bod yr argymhellion a'r penderfyniadau a wneir yn sgil hynny yn cydymffurfio â'i bolisïau a deddfwriaeth berthnasol. Yn unol â'r cytundeb cyllido, rhaid i'r corff llywodraethu ddwyn unrhyw daliadau at sylw archwilwyr rheoleiddiol y coleg.

## Y Cadeirydd

7.11 Rhaid i'r corff llywodraethu benodi cadeirydd o blith ei aelodau (ac eithrio'r pennaeth, a'r staff a'r myfyrwyr sy'n aelodau). Dylid penodi un neu ragor o is-gadeiryddion neu dirprwy gadeiryddion i weithredu yn absenoldeb y cadeirydd. Fel rhan ffurfiol o weithdrefnau llywodraethu'r coleg, dylai'r corff llywodraethu gytuno ar y broses o enwebu ac ethol cadeirydd a dylai fod ganddi hi / ganddo ef ddisgrifiad o'i rôl wedi'i gytuno gan y corff llywodraethu.

7.12 Y cadeirydd sy'n gyfrifol am y corff llywodraethu ac yn y pen draw mae'n gyfrifol i'r rhanddeiliaid am ei effeithiolrwydd. Dylai'r cadeirydd gymryd gofal penodol bod y corff llywodraethu yn glynu wrth werthoedd llywodraethu coleg, fel a nodir yn y Cod hwn.

7.13 Mae'r cadeirydd yn rôl anweithredol ac ni ddylai ymwneud â gwaith rheoli dydd i ddydd. Dylai hybu'r gwaith o weithredu'r corff llywodraethu yn effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau bod yr aelodau'n cydweithio'n effeithiol.

7.14 Dylai'r cadeirydd feithrin perthynas waith gefnogol ac adeiladol o heriol yn benodol rhwng y cadeirydd, yr is-gadeirydd, y pennaeth a'r clerc ond hefyd yn cynnwys aelodau eraill y corff llywodraethu a'r uwch dîm arwain.

7.15 Dylai'r cadeirydd sicrhau bod y corff llywodraethu yn cyfathrebu'n effeithiol â'i holl randdeiliaid, yn fewnol ac allanol.

7.16 Mae'r cadeirydd yn gyfrifol am roi cymorth i'r pennaeth a'r clerc yn ôl y gofyn, ac am arwain y gwaith o asesu eu perfformiad yn rheolaidd, gan geisio barn y llywodraethwyr eraill.

## Aelodau'r Corff Llywodraethu

7.17 Dylai aelodau'r corff llywodraethu fod yn ymroddedig, dylent gyfrannu'n rhagweithiol at gyfarfodydd, a dylent gael eu hystyried yn eiriolwyr i'r coleg. Dylent ddwyn eu gwybodaeth a'u harbenigedd at y bwrdd a bod yno i gynorthwyo a herio'r tîm gweithredol drwy sicrhau y rhoddir budd y dysgwyr yn gyntaf bob amser.

7.18 Dylai pob aelod allu neilltuo amser digonol i ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithiol. Dylai'r corff llywodraethu gytuno ar awgrym o'r amser y disgwylir gan ei aelodau ynghyd â disgrifiad priodol o'u rolau.

7.19 Rhaid i'r aelodau weithredu er budd pennaf y coleg, yn hytrach nag yn ddewisol neu er budd carfan benodol. Rhaid i'r aelodau weithredu yn onest, didwyll a gwrthrychol, gan wneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail haeddiant, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

7.20 Dylai'r corff llywodraethu lunio gweithdrefnau llywodraethu y cytunir arnynt yn ysgrifenedig, a elwir yn aml yn Rheolau Sefydlog, a'u hadolygu yn rheolaidd. Dylai'r rhain gynnwys lefelau o awdurdod a ddirprwywyd ac unrhyw is-ddirprwyaethau yn flynyddol.

### Y Pennaeth

7.21 Rhaid i'r pennaeth fod yn gyfrifol am reolaeth weithredol y coleg a'i gyfeiriad o ddydd i ddydd. Dylai ddeall a pharchu rôl y corff llywodraethu a sicrhau y caiff materion priodol eu cyflwyno i'r corff llywodraethu, gan dderbyn cyngor gan y clerc a'r uwch dîm rheoli yn ôl y gofyn. Rhaid i gyfrifoldebau penodol y pennaeth mewn perthynas â busnes y corff llywodraethu gynnwys:

- Sicrhau y caiff penderfyniadau'r corff llywodraethu eu gweithredu drwy strwythur rheoli'r coleg
- Cynghori'r corff llywodraethu yn ôl y gofyn
- Cyflawni rôl y swyddog cyfrifyddu.

7.22 Y pennaeth sydd hefyd yn gyfrifol am adroddiadau rheoli prydlon a chydlynol i'r llywodraethwyr ar weithgarwch a rhagolygon y coleg, gan gynnwys pe daw risgiau a chyfleoedd newydd i'r amlwg; ac am hwyluso cyfleoedd priodol i aelodau'r corff llywodraethu weld gwaith y coleg yn uniongyrchol a chwrdd â'r dysgwyr a'r staff.

### Y Clerc / Swyddog Llywodraethu

7.23 Rhaid i gorff llywodraethu Coleg Addysg Bellach Cyffredinol benodi person i weithredu yn glerc / swyddog llywodraethu i'r corff llywodraethu. Wrth ymdrin â busnes y corff llywodraethu, dylai'r clerc fod yn gyfrifol i'r corff llywodraethu yn unig a dylai fod ganddi/ganddo linell adrodd uniongyrchol i'w gadeirydd. Rhaid i'r corff llywodraethu warchod gallu'r clerc i gyflawni ei chyfrifoldebau/gyfrifoldebau, gan gynnwys hyfforddiant a datblygu priodol a sicrhau bod amser ac adnoddau ar gael er mwyn cyflawni'r rôl yn effeithiol.

7.24 Rhaid i'r clerc hysbysu'r corff llywodraethu os yw'n credu y byddai unrhyw weithred arfaethedig yn mynd y tu hwnt i'w bwerau neu'n golygu risg rheoleiddiol neu (pe byddai gan y clerc gyfrifoldebau rheoli eraill yn y coleg) os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng ei rolau clercio a rheoli.

### Penodi Aelodau'r Corff Llywodraethu: Cyfnod Swydd, Sefydlu a Hyfforddiant

7.25 Dylai'r corff llywodraethu fabwysiadau polisi ffurfiol ac agored ar gyfer recriwtio llywodraethwyr. Dylai'r polisi hwn gynnwys:

- Adolygiad rheolaidd o'r corff llywodraethu presennol i sicrhau bod ganddo'r amrywiaeth briodol o sgiliau, profiad a chefndir i ddarparu trefn lywodraethu gref, a nodi unrhyw angen am lywodraethwyr newydd sydd â sgiliau penodol
- Y broses i chwilio am lywodraethwyr newydd ac am ddewis ymgeiswyr
- Y broses i enwebu a phenodi llywodraethwyr o blith staff a myfyrwyr.

7.26 Gall y corff llywodraethu benodi pwyllgor chwilio a allai gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau ar ran y corff llywodraethu. Gallai hyn gynnwys adolygu aelodau'r corff llywodraethu a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gweithredu'r weithdrefn recriwtio, cynnal asesiad o berfformiad y corff llywodraethu, datblygiad aelodau'r corff llywodraethu, ac ymdrin â materion cyflogaeth neu gontractiol i'r clerc, gan gynnwys argymell ei phenodi/benodi.

7.27 Dylai'r corff llywodraethu cyfan gytuno ar y broses a'r meini prawf ar gyfer penodi cadeirydd. Dylai'r broses gael ei chynnal gan y pwyllgor chwilio neu grŵp a sefydlir at y diben. Rhaid i'r corff llywodraethu hefyd gadarnhau'r penodiad os yw wedi'i gyflawni gan is-grŵp neu bwyllgor.

7.28 Dylai'r pwyllgor chwilio (neu bwyllgor arall a sefydlwyd i'r diben hwn) lunio adroddiad blynyddol sy'n disgrifio gwaith y pwyllgor, gan gynnwys polisi ac arferion recriwtio y corff llywodraethu, disgrifiad o'i bolisi ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac unrhyw amcanion mesuradwy a osodwyd ganddo ynghyd â chynnydd wrth eu gweithredu. Os nad oes adroddiad ar wahân, dylai adroddiad blynyddol y coleg gynnwys y meysydd hyn.

7.29 Dylai'r corff llywodraethu fodloni ei hun bod cynlluniau yn eu lle ar gyfer olyniaeth ei aelodau, er mwyn cynnal cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad gan adnewyddu rolau allweddol yn flaengar. Os oes gan y corff llywodraethu y pŵer i gyfethol aelodau pwyllgor mewn rôl gynghori, dylid rhoi ystyriaeth debyg.

7.30 Rhaid bod gan y corff llywodraethu y pŵer i waredu unrhyw rai o'i aelodau o'u swydd a dylai ystyried gwneud hynny os yw aelod yn mynd yn groes i'w phenodiad/penodiad.

## Cyfnod Swydd

7.31 Dylai pob aelod, ac eithrio'r pennaeth, gael ei phenodi/benodi am gyfnod penodol, a dylai fod modd ei adnewyddu yn ddibynnol ar berfformiad boddhaol. Ni ddylid adnewyddu'r cyfnod yn awtomatig a dylai gael ei gyflawni yn unig yn dilyn ystyriaeth briodol o bresenoldeb y llywodraethwr, ei chyfraniad/cyfraniad at waith y coleg ac asesiad yn erbyn yr archwiliad sgiliau. Fel arfer, ni ddylai llywodraethwyr wasanaethu am ragor na dau dymor (neu ddim mwy nag wyth mlynedd) ac eithrio wrth ymgymryd wedyn â rôl newydd uwch, er enghraifft fel cadeirydd. Y mae'r cyfnod swydd y penodir cadeiryddion iddo yn amrywio – p'un a ydynt yn cael eu penodi'n flynyddol neu ar ôl cyfnod o bedair blynedd, dylid eu hailbenodi'n unig ar ôl rhoi ystyriaeth i anghenion a pherfformiad y coleg.

## Taliadau i Aelodau'r Corff Llywodraethu

7.32 Dylai'r corff llywodraethu fabwysiadu polisïau a gweithdrefnau i dalu costau teithio a threuliau achlysurol yr aelodau. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau os yw'n dymuno talu aelodau allanol am fod yn ymddiriedolwyr/llywodraethwyr.

## Hyfforddiant a Sefydlu

7.33 Dylai'r cadeirydd a'r clerc sicrhau bod aelodau newydd y corff llywodraethu yn derbyn rhaglen sefydlu lawn wrth ymuno â'r corff llywodraethu, a dylent adnewyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn rheolaidd drwy weithgarwch datblygu a briffio wedi'u hariannu gan y coleg.

7.34 Dylai holl aelodau'r corff llywodraethu sicrhau, yn unigol ac ar y cyd, bod ganddynt neu eu bod yn ceisio dealltwriaeth ddigonol o waith y coleg a thirwedd byd addysg er mwyn gallu ymwneud yn llawn ym materion y corff llywodraethu. Dylai'r clerc gadw cofnodion o weithgarwch datblygu pob aelod o'r corff llywodraethu

## Adolygu Arferion Llywodraethu

7.35 Rhaid i'r corff llywodraethu adolygu ei effeithiolrwydd yn rheolaidd, gan sicrhau gwelliant parhaus, ac felly nid yn unig gwella ei berfformiad ei hun, ond gosod esiampl i'r coleg. Dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o berfformiad yn erbyn y gwerthoedd a'r prif gyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod hwn.

7.36 Dylai'r corff llywodraethu ddiffinio yn ysgrifenedig gyfrifoldebau priodol y cadeirydd, y pennaeth, y clerc a llywodraethwyr unigol, a'u hadolygu yn rheolaidd.

7.37 Dylai'r corff llywodraethu fyfyrio'n flynyddol i ba raddau y mae ei bwyllgorau wedi cyflawni eu cylch gorchwyl ac yn parhau'n addas i'r diben.

7.38 Wrth adolygu ei effeithiolrwydd, dylai'r corff llywodraethu fyfyrio ar lwyddiant y coleg yn gyfan o ran cyflawni amcanion strategol a mesurau perfformiad cysylltiedig, a'r cyfraniad a wnaeth y corff llywodraethu at y llwyddiant hwnnw. Os yw'n bosibl, dylai'r corff llywodraethu feincnodi ei berfformiad a'i broses yn erbyn colegau cymharol a sefydliadau perthnasol y tu allan i'r sector addysg bellach a sefydlu cyfres syml o fesurau i'w defnyddio wedyn i fonitro perfformiad.

7.39 Dylid rhoi ystyriaeth i farn y tîm gweithredol a chyrff perthnasol, ynghyd â barn cymunedau o staff, rhieni, ymddiriedolwyr, cyflogwyr a dysgwyr. Dylai unrhyw adolygiad gynnwys safbwynt allanol, er enghraifft drwy ddefnyddio hwylusydd allanol addas neu lywodraethwr a/neu glerc addas o brofiadol o goleg arall. Dylai'r amseru fod yn unol â llunio hunanasesiad blynyddol y coleg.

7.40 Mae gweithredu ar ganlyniadau adolygiadau effeithiolrwydd cyn bwysiced â chynnal yr adolygiadau. Dylai'r canlyniadau a'r camau gweithredu cysylltiedig gael eu cyhoeddi'n eang, gan gynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

# Diffiniadau, cyfeirnodau a dolenni i ddeunyddiau ffynhonnell

| | | |
|---|---|---|
| **Diffiniadau** | 1 | Mae'r 14 coleg yn cynnwys 10 corfforaeth addysg bellach gan gynnwys Coleg Catholig Dewi Sant; y sefydliad addysg bellach – Coleg Cymunedol Cymru WEA YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion sy'n rhan o grwpiau prifysgol. |
| | 2 | Defnyddir y term 'coleg addysg bellach' a 'choleg' i gwmpasu colegau addysg bellach a sefydliadau addysg bellach. |
| | 3 | Mae'r term 'corfforaeth addysg bellach' yn derm cyfreithiol i ddisgrifio corff llywodraethu coleg addysg bellach corfforedig. |
| | 4 | Y term cyffredin am 'aelod corfforaeth' yw 'llywodraethwr'. Defnyddir y gair 'llywodraethwr' yn y ddogfen hon. |
| | 5 | Y Prif Reoleiddiwr<br>http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/further-education/principal-regulator/?lang=cy |
| **Y Cod** | 1 | Gan gynnwys statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, a ddaw i rym yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/1/pdfs/anaw_20140001_en.pdf |
| | 2 | Nolan: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: Anhunanoldeb, Uniondeb, Arweinyddiaeth, Didwylledd, Gonestrwydd, Gwrthrychedd, Atebolrwydd:<br>https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life |
| | 3 | Cod Corfforaethol y Deyrnas Unedig: sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan Lywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr:<br>https://www.frc.org.uk/corporate/ukcgcode.cfm |
| | 4 | Cod y Sector Gwirfoddol<br>http://www.governancecode.org/summary-code-of-governance |
| **1 Strategaeth ac Arwein-yddiaeth** | 1 | Polisi Addysg a Sgiliau<br>http://llyw.cymru/topics/educationandskills/?lang=cy<br>Ystadegau: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol<br>http://gov.wales/statistics-and-research/further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy |
| | 2 | Wise Cymru |
| | 3 | Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2013/14 SDR |
| | 4 | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi Llythyr Blaenoriaethau blynyddol ar gyfer Addysg Bellach.<br>http://gov.wales/docs/dcells/publications/140530-priorities-for-further-education-sector-2015-2016-cy.pdf |

| | | |
|---|---|---|
| **2 Cyd-atebolrwydd** | 1 | Nodiadau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 2014 ynglŷn â'r gofynion sylfaenol ar gyfer Offeryn ac Erthyglau diwygiedig<br>http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/1/pdfs/anaw_20140001_en.pdf<br>Deddf Diogelu Data 2000 |
| | 2 | Estyn: Ymdrin â chwynion myfyrwyr<br>http://www.estyn.gov.uk/english/news/news/more-consistency-needed-in-managing-learner-complaints-in-further-education-institutions/ |
| | 3 | Canllaw i lywodraethwyr ysgolion ac academïau<br>http://www.nga.org.uk/getattachment/Guidance/Legislation,policies-and-procedures/Government-advice-and-guidance/Governors-Guide-to-the-Law/Governors_Handbook-January-2015.pdf.aspx |
| | 4 | Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015<br>http://services.parliament.uk/bills/2014-15/counterterrorismandsecurity.html<br>Canllawiau Atal<br>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/388934/45584_Prevent_duty_guidance-a_consultation_Web_Accessible.pdf<br>'Hybu Gwerthoedd Prydain'.<br>https://www.gov.uk/government/news/consultation-on-promoting-british-values-in-school |
| **3 Dysgu ac addysgu** | 1 | Arolygu<br>http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/<br>AdAS – Polisi ar gyfer Addysg a Sgiliau<br>http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/?lang=cy<br>Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch<br>http://www.qaa.ac.uk/en |
| **4 Ymatebol-rwydd** | 1 | Estyn: Dysgwyr yn elwa ar ffurfio eu haddysg<br>http://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/dysgwyr-yn-elwa-ar-ffurfio-eu-haddysg?_ga=1.135131507.319041007.1438590770 |
| | 2 | Sganio'r Gorwel – Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES)<br>http://www.ukces.org.uk/ |
| | 3 | Colegau yn eu Cymunedau<br>http://shop.niace.org.uk/colleges-in-their-communities.html |
| | 4 | Ynglŷn â gwaith... Dysgu ac addysgu galwedigaethol rhagorol i oedolion<br>http://www.excellencegateway.org.uk/node/26611 |

| | | |
|---|---|---|
| **5 Strategaeth Ariannol ac Archwilio** | 1 | Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 15 Mawrth 2015<br>http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/further-education-audit-code-of-practice/?lang=cy |
| | 2 | Memorandwm Ariannol, AdAS, Llywodraeth Cymru<br>http://gov.wales/docs/dcells/publications/150306-financial-memorandum-en.pdf |
| | 3 | Caffael<br>https://www.gov.uk/government/publications/governance-in-multi-academy-trusts |
| | 4 | Isgontractio – Cyngor yr SFA<br>https://www.gov.uk/government/collections/sfa-subcontracting-using-funding-to-offer-education-and-training |
| | 5 | Mides, Meincnodi Cymdeithas y Colegau<br>https://www.aoc.co.uk/governors%E2%80%99-use-data-and-the-mides-online-benchmarking-tool |
| | 6 | Dangosfyrddau Data Swyddfa Safonau Mewn Addysg<br>http://dashboard.ofsted.gov.uk/ |
| | 7 | Dangosfyrddau Ariannol yr Adran Addysg |
| **6 Cydraddol-deb ac amrywiaeth** | 1 | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>http://www.equalityhumanrights.com/legal-and-policy/legislation/equality-act-2010/equality-act-codes-practice-and-technical-guidance |
| | 2 | Rhwydwaith Arweinyddiaeth Menywod<br>http://www.wlnfe.org/ |
| | 3 | Rhwydwaith y Gweithwyr Proffesiynol Du ac Asiaidd<br>http://www.nbp.org.uk/ |
| | 4 | Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.<br>http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted |
| **7 Llywodraethu effeithiol** | 1 | Bil Addysg Bellach ac Uwch 2013<br>http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s500001701/Bill%20as%20passed.pdf |
| | 2 | Bu natur llywodraethu ym maes addysg bellach yn destun dau ymchwiliad dan arweiniad y llywodraeth:<br>Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Sefydliadau AB yng Nghymru gan John Griffiths AC a gyhoeddwyd yn 2010.5<br>http://dera.ioe.ac.uk/3726/1/110526stakeholdreviewen.pdf |

Adolygiad Humphreys a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011
http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/fegovreview/?lang=cy

3 Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014
http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6429

4 Hunan Adolygu'r Bwrdd
https://www.aoc.co.uk/sites/default/files/Board%20self%20evaluation.pdf

5 Taliadau i Lywodraethwyr Cyngor y Comisiwn Elusennau
https://www.gov.uk/guidance/payments-to-charity-trustees-what-the-rules-are.cy

6 Ymchwil a Datblygu: Education Training Foundation
http://www.et-foundation.co.uk/

7 Pob mater yn ymwneud â Llywodraethu, Cymdeithas y Colegau: Llywodraethu Colegau
http://www.aoc.co.uk/term/governance

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais
Caerdydd CF15 7AB

T: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk

www.colegaucymru.ac.uk

Rhif Elusen Gofrestredig 1060182